Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR TECHNEGOL Rhifyn 12 – Chwefror 2008

Cynnwys:

- Nodyn golygyddol
- Nodweddion mynediad cyhoeddus
- Diweddariad GLOS
- Lansio cystadleuaeth Coedwigoedd i Gymru
- Cylchlythyr Ecotype
- Digwyddiadau hyfforddi sydd ar ddod
- Cyfeirnod Cwsmeriaid (CRN)
- Cyhoeddiadau newydd a diwygiedig Grantiau a Thrwyddedau
- Choeddiadau newydd a diwygiedig gan Ymchwil Coedwigoedd
- Manylion ar gyfer cysylltu
- Dyddiadau rhifynnau

Nodyn Golygyddol

Bu'n fwy o wythnosau da o ran Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) gyda nifer yr achosion a gymeradwywyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) erbyn hyn dros 170 - mae hyn yn fwy na 5,500ha. Mae rhai pryderon ynglŷn â thanddefnyddio cyllidebau CGG eleni ond rydym yn gwneud popeth i ostwng hyn. Ar y nodyn hwn gall cynllunwyr, asiantau a pherchnogion helpu drwy sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno yn brydlon. Bydd CCC yn derbyn newidiadau i ddod â'r blynyddoedd cais ymlaen, felly os ydych wedi chwarae'n ddiogel a nodi blwyddyn gais 08/09 ond wedi gwneud y gwaith, dewch i geisio ei newid i hawlio'r arian ar unwaith os gwelwch yn dda. Hefyd, mae nifer o grantiau paratoi cynllun rheoli heb eu hawlio hyd yn hyn er bod y cynllun wedi ei gymeradwyo ers tro.

Cyfarfu'r Grŵp Technegol ar ddiwedd mis Ionawr a chafwyd sesiwn gynhyrchiol iawn yn edrych ar welliannau GaTh Ar-lein. Mae'r rhain yn awr yn y broses o gael eu gosod yng nghynlluniau cyflwyno eleni, gyda rhai newidiadau wedi eu trefnu ar gyfer eu cyflwyno ym mis Mawrth. Bydd y newidiadau hyn yn cyflymu'r amser a gymer i fewnosod data a gwneud y system yn fwy hwylus i'r defnyddiwr ond ni fydd yn newid yr egwyddorion craidd na'r broses cynllunio rheoli. A gaf i gymryd y cyfle i atgoffa cynllunwyr am yr ardal drafod i gynllunwyr a sefydlwyd gan y Grŵp Technegol. I edrych ar yr ardal ewch ar http://ccg.freeforums.org.

Cafwyd ymateb rhagorol i ffioedd cyfuno Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a bellach cofrestrwyd 38 cynllunydd yn ddefnyddwyr GIS.

Nodweddion mynediad cyhoeddus

Dylai cynllunwyr rheoli nodi bod angen nodwedd mynediad cyhoeddus ar gyfer pob achos lle mae'r ymgeisydd yn chwilio am gymorth grant tuag at y gost o ddarparu mynediad cyhoeddus. Bydd y nodwedd hon yn caniatáu i'r Swyddogion Coetir i asesu'r 'weledigaeth' a gweld yn glir yr hyn mae'r ymgeisydd yn ceisio ei gyflawni, a barnu a yw'n cynnig gwerth am arian neu beidio. Bydd y ffactorau yr hoffid eu gweld yn darparu eitemau y gellir eu mesur er mwyn asesu a yw'r ymgeisydd yn darparu'r hyn a gytunwyd arno neu beidio. Dylai ffactorau yr hoffid eu gweld fod yn eitemau sy'n hawdd i'w mesur.

Y Cynllun cymhleth mawr gorau - Phil Davies ar gyfer Erddig

Y safon cyffredinol gorau ar draws ystod o gynlluniau – Richard Curtis

Diweddariad y System Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS)

Rhyddhawyd fersiwn ddiweddaraf GLOS ar 28 Chwefror. Ceir manylion y prif meysydd newid isod:

- Gweithrediadau copïo -atgyweiriwyd y nam.
- Newidiadau i'r cyngor ynghylch taliad ar gyfer taliadau grant.
- Newidiadau er mwyn galluogi asiantwyr i gael eu hychwanegu at achosion ar ôl cymeradwyaeth.
- Cywirwyd y fformat cyfeirnod grid yn y crynodeb achos.
- Galluogi staff CC i ddileu rhai atodiadau, yn enwedig y rhai a gafodd eu llwytho i fyny ar gamgymeriad.
- Sefydlogi er mwyn rhwystro rhan-ddeiliaid rhag cael eu cyfuno i weld manylion achos.
- Datganiad Mynediad Cyhoeddus newydd - dilëwyd y datganiad Mynediad Cyhoeddus oddi ar y templed gair/word ac mae'n awr yn orfodol ar y sgrîn Rhan-ddeiliad.

Gwnaethpwyd llawer o waith y tu ôl i'r llenni fel rhan o ymrwymiad parhaus Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda sylw arbennig i gyllido'r UE.

Bydd y gwaith o draws-wirio o ddiddordeb arbennig i gynllunwyr a pherchnogion. Mae'n ofyniad bod angen gwirio pob grant a roddir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) er mwyn sicrhau nad oes gweithrediadau sy'n gwrthdaro neu ariannu dwbl. Rydym yn gweithio ar system draws-wirio awtomatig sydd i'w ryddhau'r mis nesaf gyda'r fersiwn derfynol ar gael ym mis Mehefin.

Mae llawer o waith yn mynd yn ei flaen i wella sefydlogrwydd y system, a bydd y cam cyntaf wedi ei orffen mewn pryd i ddatganiad mis Mehefin, ynghyd â gwelliannau cyffredinol eraill ar gyfer cynllunwyr ac asiantwyr/perchnogion.
Dylai telerau ac amodau Premiwm Tir wedi'i Wella (ILP) fod wedi eu cytuno erbyn cychwyn mis Mawrth. Byddant yn cael eu hatodi at y Telerau a'r Amodau ar gyfer Mehefin 08 ac fe'u cymhwysir yn ôl-weithredol i'r holl achosion lle gofynnwyd am ILP .

Lansio Cystadleuaeth Coedwigoedd i Gymru

Gwahoddir perchnogion coedwigoedd yng Nghymru i gystadlu am wobr ariannol gwerth £1500 mewn cystadleuaeth newydd a redir gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Bydd cystadleuaeth 'Coedwigoedd i Gymru' yn chwilio am brosiectau sy'n dangos enghreifftiau o arallgyfeirio cynaliadwy a darparu gwerth ychwanegol mewn tri chategori gwahanol o ddatblygiadau a rheoli coetir yn ymwneud â gweithgareddau hamdden, masnach a chymdeithasol. Mae'n agored i berchnogion a ffermwyr coetir preifat. Cewch fwy o wybodaeth, a ffurflen gofrestru ar-lein, ar wefannau Cymdeithas RWAS a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru: www.rwas.co.uk a www.forestry.gov.uk yn y drefn honno.

Y dyddiad cau ar gyfer pob cais yw Mawrth 28 a chyhoeddir yr enillydd terfynol yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf.

Cylchlythyr Ecotype

Cylchlythyr bioamrywiaeth a chadwraeth Adran Ecoleg yr Ymchwil Coedwigaeth.

Ymhlith erthyglau rhifyn diweddaraf y cylchlythyr mae:

- Rhwydweithiau cynefin ar gyfer llywio defnyddio tir yn gyfannol
- Dau brosiect newydd Defra ar ecoleg tirwedd
- A wnânt neu beidio?
- Arolwg o bridd coedwigoedd a bioamrywiaeth - y prosiect BioPridd pan-Ewropeaidd
- A yw ardaloedd hadau yn cadw amrywiad ymaddasol?
- Cyfrifiad y groesbig yn Yr Alban
- Newyddion, cyhoeddiadau newydd, cynadleddau

Gellir lawrlwytho rhifyn diweddaraf Ecotype oddi ar wefan Ymchwil Coedwigaeth ar:
http://www.forestresearch.gov.uk/pdf/Ecotype40.pdf/$FILE/Ecotype40.pdf

Bydd rhifyn nesaf Ecotype yn cael ei anfon fel mater o drefn at aseswyr Planhigfeydd ar Safleoedd Hen Goetiroedd (PAWS) CGG ac Ecolegwyr CGG. A wnaiff unrhyw un arall sy'n dymuno cael ei ychwanegu at y rhestr bost gysylltu â Sam Davies os gwelwch yn dda (cewch afael ar y manylion ar gyfer cysylltu tua diwedd y Cylchlythyr).

Cynllun cyntaf gorau - Huw Denman ar gyfer Pantmaenog

Digwyddiadau hyfforddi sydd ar ddod

Mae'r sesiynau canlynol ar gyfer staff newydd/ymgeiswyr sydd heb eu cymeradwyo'n ffurfiol ar gyfer rôl benodol. Cysylltwyd â chi ynglŷn â'ch presenoldeb ar wahân i'r cylchlythyr hwn.

Bydd cyfle arall i fynychu unrhyw un o'r cyrsiau hyn ym mis Hydref 2008.

Teitl y Cwrs	Dyddiad	Lleoliad
Aseswyr CCF	10 Mawrth 2008 **DILEWYD**	Swyddfeydd y Cyngor, Llanidloes
Aseswyr Ecolegol	11 Mawrth 2008	Swyddfeydd y Cyngor, Llanidloes
Hyfforddiant Cynlluniwr Rheoli (4 diwrnod gorfodol)	17 Mawrth 2008	Gwesty'r Conrah, Aberystwyth
	18 Mawrth 2008	Swyddfa'r CC, Aberystwyth
	27 Mawrth 2008	Gwesty'r Conrah, Aberystwyth
	28 Mawrth 2008	Swyddfa'r CC, Aberystwyth

A wnewch chi gadarnhau eich bod yn dod i unrhyw un o'r sesiynau uchod cyn gynted a bo modd drwy gysylltu â Samantha Davies os gwelwch yn dda gynted ag y bo modd.

Cynlluniau Rheoli

Cynllunydd	Cymeradwy-wyd y Cynlluniau
Julian Miller	18
Evelyn Over	15
Graham Heath	13
Carl Bridges	12
John Jeremy	10
Hugh Wheeldon	9
Richard Curtis	9
Dick Godefroy	8
John Ferguson	7
Simon Ayres	7
Alison Wheeler	6
Iain Peddie	6
Simon Graham	6
Alison Ginn	5
Chris Radford	5
Neill Scott	5
Mat Ridley	4
Andrew Bronwin	3
Joe Fielding	3
Arthur Wiggins	2
John Lees	2
Mike Richards	2
Phil Davies	2
Phil Morgan	2
Phil Webb	2
Rob Marsh	2
Bede Howell	1
Dara Mullin	1
Gareth Henson	1
Huw Denman	1
Mark Potter	1
Martin Jones	1
Mike Hughes	1
Peter Jackson	1
Ritchie Tassell	1
Simon Hunt	1
Sonia Jones	1
Vaughan Lewis	1
	177

Cyfeirnod Cwsmeriaid (CRN)

Mae pob Swyddfa Ranbarthol yn gyfrifol yn awr am brosesu ceisiadau CRN o'i hardal ddaearyddol ei hun.

- **Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin** sy'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro;
- **Swyddfa Ranbarthol Caernarfon** sydd â'r cyfrifoldeb dros Sir Fôn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Gwynedd a Wrecsam;
- **Swyddfa Ranbarthol Llandrindod** sy'n darparu ar gyfer Morgannwg, Gwent a Phowys.

Pentyrrodd y gwaith mewn rhai ardaloedd ond mae pob Swyddfa Ranbarthol yn ymwybodol ei bod yn bwysig rhoi sylw ar frys i geisiadau CRN.

Cyhoeddiadau newydd a diwygiedig Grantiau a Thrwyddedau

Lefel 1 – Dogfennau **'Agwedd at'** sy'n esbonio fframwaith CGG.
Lefel 2 – **Canllawiau grant** sy'n esbonio pa grantiau sydd ar gael
Lefel 3 – Dofennau **'Sut mae'** sy'n rhoi arweiniad a chyfarwyddiadau
Lefel 4 – **Rheolau Busnes** sy'n rhoi manylion penodol iawn am y rheolau.
Lefel 5 – **Templedi a ffurflenni** - y dogfennau go iawn a ddefnyddir i wneud rhywbeth mewn gwirionedd e.e. paratoi asesiad arbenigol.
Lefel 6 – **Deunydd cyhoeddusrwydd**.
Lefel 7 - **Dogfennau gwneud Cais** ar gyfer rôl Cynlluniwr Rheoli ac Asesydd Arbenigol
Lefel 8 – **Amrywiol**

Lefel	Enw	Statws
1	AT01 Ymdrin ag Archaeoleg a'r Amgylchedd Hanesyddol	Diwygiedig
5	SA09 Asesiad arbenigol - adroddiad ac enghraifft rhan-ddeiliad	Diwygiedig
5	FM02 Ffurflen Gwelliannau	Newydd
8	FM05a EPS Ffurflen trwyddedau	Newydd

Cyhoeddiadau newydd a diwygiedig gan Ymchwil Coedwigaeth

Cod	Enw
Nodyn Gwybodaeth (FCIN090)	Forests and wood ants in Scotland
Nodyn Gwybodaeth (FCIN091)	Greenspace establishment on brownfield land: the site selection and investigation process
Nodyn Ymchwil (FCRN101)	Impacts of climate change on forestry in Scotland – a synopsis of spatial modelling research

Am fwy o wybodaeth, ewch i gysylltiadau Cyhoeddiadau ar www.forestresearch.gov.uk/peopleandtrees

Cewch y cylchlythyr cyfredol ac ôl-rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru
www.forestry.gov.uk

Manylion ar gyfer cysylltu

- Ymholiadau cyffredinol CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu logio ar www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Ar-lein GaTh: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Ymholiadau Cyfrifo Cost GGC: E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Cylchlythyr Perchnogion CGG: Cyswllt http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6tsj8s

Dyddiadau Rhifynnau:

Cylchlythyr Technegol CGG
▪ Rhifyn 12 – 29 Chwefror 2008
▪ Rhifyn 13 – 25 Ebrill 2008

Cewch y rhifyn cyfredol ac ôl-rifynnau ar safle gwefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales